

## Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 11.00a.m. ddydd Iau 8 Gorffennaf 2021

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)

Tony Ball

Pam Berry

Andrew Curl

Tania Davies

Margaret Evans

Eifion Griffiths

Yr Athro Medwin Hughes

Vanessa Liverpool

Arwel Ellis Owen

Matthew Peake

Liam Powell

Victoria Provis

Geraint Roberts

Dr Liz Siberry

Maria Stedman

Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor

Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes

Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr

Shône Hughes, Pennaeth Staff

Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol

Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)

Aelodau Cyngor Prifysgol Cymru yn bresennol fel sylwedyddion:

Nigel Roberts

Deris Williams

Yn bresennol ar gyfer eitem 21.38

Emyr Jones, Pennaeth Gweithredol Eiddo a Datblygu'r Ystadau

Mike Williams, Is-bennaeth, CSG

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
21.28 Ymddiheuriadau am absenoldeb	DERBYNIODD y Cyngor ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Conny Matera Rogers, yr Athro Dylan Jones a Gavin Bessant.	
21.29 Datganiadau o fuddiannau	DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (CO354).	
21.30 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021	CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mawrth 2021 fel cofnod cywir (CO355).	
21.31 Cofnodion Cyfyngedig	CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mawrth 2021 fel cofnod cywir (CO355).	
21.32 Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu	DERBYNIODD y Cyngor y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (CO356).  Codwyd y mater canlynol:  <u>Aelodaeth o Fwrdd Coleg Sir Gâr</u> Cyfeiriodd aelodau at y cofnod lle adroddwyd bod wyth aelod yn dod i ddiwedd eu tymor ar y Bwrdd, gan ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol. Nododd Cadeirydd Bwrdd CSG y byddai'n ymateb fel rhan o'i hadroddiad ar y cyfarfod diweddar o'r Bwrdd.	
21.33 Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr 1 Gorffennaf 2021	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad ar gyfarfod Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd 1 Gorffennaf 2021 gan Gadeirydd y Bwrdd (CO358).  Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd at aelodaeth o'r Bwrdd gan adrodd fod y Bwrdd wedi cynnal arolwg i ddynodi'r aelodau hynny a ddymunai gael eu hystyried am gyfnod pellach yn eu swydd, gan nodi bod y Bwrdd yn cadw'r hawl i beidio ag adnewyddu. Byddai'r cam gweithredu hwn yn hwyluso cynllunio	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<p>olyniaeth. Roedd y Coleg yn gweithio ar y cyd â'r Brifysgol yn ei broses recriwtio gyda chysylltiadau ar gael o un ymgyrch recriwtio i'r llall.</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Bwrdd fod y Bwrdd wedi derbyn y cynigion ynghylch datblygiadau AB-AU yng Nghaerfyrddin ac roeddynt wedi cael eu calonogi gan y cynnydd a wnaed gan swyddogion. Roedd y Bwrdd yn falch o gymeradwyo'r cynigion ar gyfer mynd â'r prosiect yn ei flaen.</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Bwrdd ar y sefyllfa ariannol a'r gyllideb arfaethedig am 2021/22, a oedd yn rhagweld gwarged bach. Cyfeiriodd at Goleg Ceredigion a'r gwelliannau a gyflawnwyd.</p> <p>Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd at y llythyr cylch gorchwyl a ddangosodd fod y Grŵp yn gweithio'n dda gyda'i gilydd gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud ymhob maes. Tynnodd sylw at y Protocol Grŵp newydd, a adlewyrchai fod y berthynas rhwng y Coleg a'r Drindod Dewi Sant yn aeddfedu, gyda'r Drindod Dewi Sant yn aelod o'r Coleg.</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Bwrdd y disgwyliad i'r arolygiad arfaethedig gan Estyn a oherwydd Covid gael ei gynnal yn yr hydref 2021. Tynnodd sylw hefyd at yr Ŵyl Ymarfer ddiweddar gan adrodd bod y Coleg yn un o ddeg sefydliad sefydlu ar gyfer Coleg Ymchwil yn y DG.</p>	
<p>21.34 Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad</p>	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 24 Mehefin a 30 Mehefin 2021 (CO357).</p> <p>Wrth gyflwyno adroddiadau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, nododd y Cadeirydd fod aelodau wedi cydnabod y gwaith rhagorol a gyflawnwyd gan uwch swyddogion, nid yn unig yn nhermau maint y gwaith, ond hefyd oherwydd eu cyflymder a'u diwydrwydd. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor am eu hymrwymiad ac am ansawdd eu profi a'u herio yn ystod cyfarfodydd.</p> <p>Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad at adroddiad monitro ac asesiad blynyddol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a ddangosodd fod pob Dangosydd naill ai wedi aros yn ei unfan neu wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd at y diweddariad ariannol gan sicrhau'r Cyngor fod ansawdd y paratoi a'r profi a herio mewnol yn rhoi hyder yn y sefyllfa.</p>	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
21.35 Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Drindod Dewi Sant	Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod.	
21.36 Cyllideb a rhagolwg pum mlynedd	Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod.	
21.37 Grant bloc Undeb y Myfyrwyr	<p>CYMERADWYODD y Cyngor gynigion ar gyfer grant Bloc Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2021/22-2023/24, a oedd wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (CO360).</p> <p>Datganodd Llywyddion Undeb y Myfyrwyr eu buddiannau yn y mater hwn.</p> <p>Adroddodd yr Is-Ganghellor fod y Brifysgol yn fodlon ar y targedau a osodwyd gan ganmol gwaith Undeb y Myfyrwyr yn ystod blwyddyn anodd iawn.</p>	
21.38 Adolygiad AB/AU Caerfyrddin	Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod.	
21.39 Adroddiad y Pwyllgor Academaidd	<p>YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd 19 Mai 2021 (CO362).</p> <p>Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Academaidd waith swyddogion ac ansawdd papurau a oedd wedi'u cyflwyno i'w hystyried. Adroddodd fod y cyfarfod wedi derbyn cyflwyniadau a diweddariadau ynghylch partneriaethau academaidd, gwaith cyfoethogi a thrywydd arfaethedig Academi Fyd-eang Cymru a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog.</p> <p>YSTYRIODD y Cyngor a CHYMERADWYO argymhelliad y Pwyllgor Academaidd mai strwythur Academi Fyd-eang Cymru fyddai'r cyfrwng ar gyfer yr holl weithgarwch masnachol rhyngwladol yn y dyfodol.</p>	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
21.40 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog	<p>YSTYRIODD y Cyngor y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog (CO363).</p> <p>Seiliwyd y Strategaeth ar y blaenoriaethau strategol allweddol canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu a datblygu'r gweithlu dwyieithog</li> <li>• Cynyddu'r cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>• Gwella profiadau'r myfyrwyr</li> <li>• Cynnal a datblygu ethos Cymraeg ar y campws</li> </ul> <p>Byddai'r Strategaeth yn cael ei gweithredu o fis Medi 2021 a'i hadolygu'n flynyddol.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog.</p>	
21.41 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg	<p>YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 24 Mehefin 2021 (CO364).</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y Pwyllgor wedi derbyn y cynllun Archwiliadau Allanol a nododd oherwydd y risg sylweddol o ran rhwymedigaethau pensiwn, byddai KPMG yn cynyddu eu ffocws ar ddiffygion LGPS ac USS, yn yr un modd â sefydliadau AU eraill.</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad cryno trylwyr ynghylch dyrannu cronfeydd cymorth Covid a dderbyniwyd drwy CCAUC yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y contractau ar gyfer KPMG a Mazars i fod i ddod i ben ym mis Gorffennaf 2021. Roedd penodiad yr Archwilwyr Allanol a Mewnol yn 2018 wedi bod am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn am flwyddyn ychwanegol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried canlyniadau gwerthusiad a gyflawnwyd gan aelodau a swyddogion oedd yn bresennol ynghylch gwasanaethau'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, ynghyd â chynigion swyddogion ac ARGYMHELLODD y canlynol i'r Cyngor:</p> <p>a) fod penodiad KPMG a Mazars fel archwilwyr allanol a mewnol y Grŵp yn eu tro yn cael ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol h.y. tan 31 Gorffennaf 2022, yn unol â thelerau eu contractau cyfredol;</p>	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<p>b) fod swyddogion yn adfyfrio ar y trefniadau optimwm yn y dyfodol ar gyfer archwiliad mewnol yn seiliedig ar arfer gorau yn y sector;</p> <p>c) fod cynigion ynghylch proses gaffael a phenodi'r dyfodol ar gyfer yr archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2021/22.</p> <p>Nododd y Clerc fod y mater hwn wedi'i gymeradwyo drwy weithredu gan Gadeirydd y Cyngor.</p>	
<p>21.42 Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Grŵp</p>	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Grŵp a gynhaliwyd 14 Mehefin 2021 (CO365).</p> <p>Adroddodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Grŵp fod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad blynyddol cyntaf ynghylch is-gwmnïau, a roddai wybodaeth ynghylch sefydlu a diddymu cwmnïau, ynghyd â gwybodaeth am gyfansoddiad a gweithgareddau cwmnïau cyfredol. ARGYMHELLODD y canlynol i'r Cyngor:</p> <p>a) yng nghyswllt yr Academi Sinoleg, dylid dechrau deialog gyda Sefydliad Chin Kung i fireinio fframwaith y cwmni;</p> <p>b) yng nghyswllt Eclectica Drindod, dylid trosglwyddo perchnogaeth o Goleg Prifysgol y Drindod i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn amodol ar gadarnhau nad oedd unrhyw oblygiadau o ran TAW;</p> <p>c) yng nghyswllt Canolfannau Dysgu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, dylid dechrau'r broses ddiddymu.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhellion hyn.</p> <p>NODODD y Cyngor y byddai'r Datganiad Strategol o Fwriad arfaethedig gyda Choleg Sir Gâr a Phrotocol newydd yn lle'r Ordinhad AB/AU yn cael eu cyflwyno i gyfarfod canlynol i'w hystyried.</p>	
<p>21.43 Materion y Senedd</p>	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd 28 Ebrill a 23 Mehefin 2021 (CO366).</p>	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<p>Adroddodd y DIG(A) fod y Senedd wedi ystyried a chymeradwyo Llawlyfr Ansawdd Academaidd drafft 2021/22. Canmolodd y gwaith manwl a gyflawnwyd gan y Swyddfa Academaidd a'r gweithgorau a sefydlwyd i weithio ar y llawlyfr.</p> <p>Roedd y Senedd wedi ystyried Adroddiad Ansawdd Blynyddol Undeb y Myfyrwyr 2020/21 gan ganolbwyntio ar ddysgu cyfunol ac ar-lein. Roedd y Senedd wedi canmol yr adroddiad gan nodi'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd ynghylch mynd i'r afael â'r argymhellion. Byddai'r adroddiad ac ymateb ffurfiol y Brifysgol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Academaidd i'w hystyried.</p>	
21.44 Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr	DERBYNIODD y Cyngor yr Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr (CO367)	
21.45 Athrawon Ymarfer	CYMERADWYODD y Cyngor enwebiad gan y Senedd i benodi Athro Ymarfer (CO368).	
21.46 Cod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr	<p>CYMERADWYODD y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig ynghylch Undeb y Myfyrwyr (CO369) gan nodi y byddai gofynion penodol y Cyngor a'i bwyllgorau sefydlog yn cael eu hymgorffori yn eu cynlluniau gwaith o 2021/22 ymlaen.</p> <p>NODODD y Cyngor hefyd ganlyniadau etholiadau diweddar UM am swyddi sabothol 2021/22 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llywydd Grŵp: Vanessa Liverpool</li> <li>• Llywydd Campws Caerfyrddin: Becky Bush</li> <li>• Llywydd Campws Llambod: James Barrow</li> <li>• Llywydd Campws Abertawe: Liam Powell</li> </ul>	
21.47 Defnydd o'r Sêl	<p>DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o'r Sêl (CO370).</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad gan yr Uwch Gyfarwyddiaeth i fabwysiadu dull lle byddai'r defnydd o'r Sêl yn cael ei gadw at yr achlysuron hynny pan oedd y ddau barti'n cytuno bod angen dull seremonïol, traddodiadol yn benodol, neu pan gafwyd cyngor cyfreithiol y dylid gosod y Sêl.</p>	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
21.48 Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymateb i ddatgeliadau o gamymddwyn rhywiol gan fyfyrwyr	DERBYNIODD y Cyngor y gweithdrefnau sydd yn eu lle yn y Brifysgol ar gyfer ymateb i ddatgeliadau o gamymddwyn rhywiol a wnaethpwyd gan fyfyrwyr. Roedd yn cwmpasu'r gweithdrefnau ar gyfer honiadau yn erbyn myfyrwyr a staff (CO371).	
21.49 Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022/23	DERBYNIODD y Cyngor Gynllun Ffioedd a Mynediad 2022/23 a oedd wedi'i gymeradwyo drwy weithredu gan y Cadeirydd (CO372).	
21.50 Datganiadau o fuddiannau	NODODD y Cyngor Ddatganiadau Llywyddion Undeb y Myfyrwyr ynghylch materion yn ymwneud â chyllideb Undeb y Myfyrwyr.  Nid adroddwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau eraill.	
21.51 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor 29-30 Medi 2021.	
MATERION NEILLTUEDIG		
21.52 Pwyllgor Taliadau	YSTYRIODD y Cyngor adroddiad llafar cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd 30 Mehefin 2021 a CHYMERADWYODD ei argymhellion.	

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45